# Deddf Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru) 2012

**2012 dccc 2**

*Hysbysiadau cosbau penodedig*

### 12 Y pŵer i gynnig cosbau penodedig am dramgwyddau yn erbyn is-ddeddfau penodol

(1) Mae'r adran hon yn gymwys i is-ddeddfau a wnaed gan awdurdod deddfu o dan y deddfiadau a restrir yn Rhan 2 o Atodlen 1 (is-ddeddfau y caniateir dyroddi cosbau penodedig mewn perthynas â hwy).

(2) Pan fo gan swyddog a awdurdodwyd gan awdurdod deddfu reswm dros gredu bod person wedi cyflawni tramgwydd yn erbyn is-ddeddf a wnaed gan yr awdurdod hwnnw, i'r swyddog roi hysbysiad i'r person hwnnw yn cynnig y cyfle iddo fodloni unrhyw atebolrwydd i gollfarn am y tramgwydd drwy dalu cosb benodedig.

(3) Pan fo swyddog a awdurdodwyd gan gyngor cymuned reswm dros gredu bod person wedi cyflawni tramgwydd yn ei ardal yn erbyn is-ddeddf a wnaed gan awdurdod deddfu heblaw'r cyngor cymuned, i'r swyddog roi hysbysiad i'r person hwnnw yn cynnig y cyfle iddo fodloni unrhyw atebolrwydd i gollfarn am y tramgwydd drwy dalu cosb benodedig.

(4) Mae cosb benodedig o dan yr adran hon yn daladwy i awdurdod y swyddog a roddodd yr hysbysiad.

(5) Pan roddir hysbysiad i berson o dan yr adran hon mewn perthynas â thramgwydd –

- (a) ni chaniateir cychwyn achos am y tramgwydd cyn diwedd y cyfnod o 14 o ddiwrnodau ar ôl dyddiad yr hysbysiad, a
- (b) ni chaniateir collfarnu'r person am y tramgwydd os bydd y person yn talu'r gosb benodedig cyn diwedd y cyfnod hwnnw.

(6) Rhaid i hysbysiad o dan y rheoliad hwn roi'r manylion hynny am yr amgylchiadau yr honnir eu bod yn ffurfio tramgwydd fel sy'n angenrheidiol i esbonio paham fod tramgwydd wedi digwydd.

(7) Rhaid i hysbysiad o dan yr adran hon hefyd ddatgan –

(a) o fewn pa gyfnod, yn rhinwedd is-adran (5), ni ddygir achos am y tramgwydd;

(b) swm y gosb benodedig;

(c) enw'r person y caniateir i'r gosb benodedig gael ei thalu iddo a'r cyfeiriad lle y caniateir iddi gael ei thalu.

(8) Heb ragfarnu taliad drwy unrhyw ddull arall, caniateir talu cosb benodedig drwy ragdaliad a phostio llythyr sy'n cynnwys swm y gosb (mewn arian parod neu fel arall) i'r person y cyfeirir ato yn yr hysbysiad yn y cyfeiriad a roddir ynddo.

(9) Os anfonir llythyr bernir bod taliad wedi ei wneud ar yr amser y byddid yn traddodi'r llythyr hwnnw yn nhrefn arferol y post.

(10) Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau bennu ffurf hysbysiad o dan yr adran hon.

(11) Mewn unrhyw achos mae tystysgrif –

(a) sy'n honni ei bod wedi ei llofnodi ar ran prif swyddog cyllid awdurdod, a

(b) sy'n datgan y daeth neu na ddaeth taliad o gosb benodedig i law erbyn y dyddiad a bennwyd yn y dystysgrif,

yn dystiolaeth o'r ffeithiau a ddatganwyd.

(12) Yn yr adran hon –

ystyr "swyddog awdurdodedig", mewn perthynas ag awdurdod, yw –

(a) cyflogai i'r awdurdod a awdurdodwyd yn ysgrifenedig gan yr awdurdod at ddibenion rhoi hysbysiadau o dan yr adran hon,

(b) unrhyw berson y mae ganddo, yn unol â threfniadau a wnaed gyda'r awdurdod, y swyddogaeth o roi hysbysiadau o'r fath ac sydd wedi ei awdurdodi'n ysgrifenedig gan yr awdurdod i gyflawni'r swyddogaeth, ac

(c) unrhyw gyflogai i berson o'r fath sydd wedi ei awdurdodi'n ysgrifenedig gan yr awdurdod at ddibenion rhoi hysbysiadau o'r fath;

ystyr "prif swyddog cyllid", mewn perthynas ag awdurdod, yw'r person sydd â'r cyfrifoldeb am faterion ariannol yr awdurdod.

(13) Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau ragnodi'r amodau sydd i'w bodloni gan berson cyn y caiff cyngor cymuned awdurdodi'r person yn ysgrifenedig at ddibenion rhoi hysbysiadau o dan yr adran hon.